



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Aseiad Effaith Integredig: Rhaglen i drawsnewid gofal a gynlluniwyd a lleihau amseroedd aros, Ebrill 2022 – Crynodeb

Aseu effaith gwella iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfle cyfartal.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 26 Ebrill 2022

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	3
ADRAN 8. CASGLIAD	8

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r GIG wedi bod yn canolbwyntio ar gydgyssylltu'r ymateb i'r pandemig COVID-19, yn ogystal â pharhau i ymateb i bobl â chyflyrau iechyd brys, argyfwng a hanfodol.

O ganlyniad, mae nifer y bobl sy'n aros am ofal a gynlluniwyd – ynghyd â'r amser a arhosant – yn fwy nag erioed erbyn hyn, ac mae'r GIG yn wynebu'r her o ddiwallu anghenion bron i 700,000 o bobl. At hynny, amcangyfrifir nad yw gwasanaethau gofal eilaidd wedi derbyn oddeutu 500,000 o atgyfeiriadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r rhain yn debygol o ddod i sylw gwasanaethau gofal sylfaenol yn ystod y misoedd nesaf a bydd rhestrau aros yn parhau i dyfu am beth amser.

Ar ddiwedd mis Chwefror 2022, roedd y rhestr aros yn ei chyfanrwydd yn 691,885 (cynnydd o 235,076 ers mis Mawrth 2020) ac roedd y nifer o bobl a oedd yn aros am fwy na 36 wythnos yn 251,647 (cynnydd o 223,353 ers mis Mawrth 2020). Bydd gofyn cael ymdrech ar draws system gyfan i leihau'r ffigurau hyn a sicrhau bod pobl yn cael eu gweld mewn da bryd.

Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru (y cynllun) yn nodi'r hyn y gellir ei gyflawni ar lefel uchel, blaenoriaethau ac ymrwymadau Llywodraeth Cymru a'r GIG i drawsnewid gwasanaethau gofal a gynlluniwyd a lleihau amseroedd aros dros y pedair blynedd nesaf (2026). Mae'r cynllun yn adeiladu ar y blaenoriaethau yn [Fframwaith Cynllunio'r GIG](#) (Tachwedd 2021). Mae'n seiliedig ar y weledigaeth yn Cymru lachach, y pum nod ar gyfer gofal a gynlluniwyd a'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol i sicrhau bod gwasanaethau cynaliadwy, darbodus sy'n seiliedig ar werth yn cael eu darparu mor agos i gartrefi pobl â phosibl. Mae hefyd yn cryfhau ymhellach yr integreiddio rhwng gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol a gofal eilaidd a rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Er bod y cynllun yn canolbwyntio ar ofal a gynlluniwyd, sy'n ymwneud yn bennaf â rhestrau aros ysbytai, mae'n cydnabod bod angen ffocws cryf ar gynyddu triniaethau a chapasiti mewn meysydd eraill fel deintyddiaeth, gofal sylfaenol ac iechyd meddwl.

Wrth ymateb i heriau yn ystod y pandemig, defnyddiwyd dulliau arloesol a hyblyg newydd mewn sawl agwedd ar wasanaethau gofal a gynlluniwyd, gan ddangos pa mor gyflym y gellir cyflawni newid trawsnewidiol. Mae'n bryd parhau i symud ymlaen: er mwyn harneisio hyn byddwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd ac yn cynnal y momentwm a grëwyd i rymuso cydweithwyr yn y GIG i ymgorffori newid trawsnewidiol er mwyn gwella gofal a chanlyniadau cleifion yn y dyfodol.

Mae'r cynllun yn nodi saith blaenoriaeth glir ar gyfer gweithredu dros y 4 blynedd nesaf. Mae'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio ar gamau uniongyrchol i ryddhau capasiti er

mwyn galluogi'r GIG i weld a thrin mwy o bobl, yn ogystal â chymau yn y tymor hwy a fydd yn parhau i drawsnewid y gwasanaeth, yn unol â'r weledigaeth a bennir yn Cymru Iachach.

Mae'r cynllun hwn yn cadarnhau sawl ymrwymiad i bobl Cymru i'w helpu i gael gafael ar y cyngor a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Dyma nhw:

Cynyddu capasiti'r gwasanaeth iechyd – bydd gwell mynediad yn nes gartref i feddygon, niysys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill fel bod pobl yn cael y gofal cywir gan y gweithiwr iechyd proffesiynol cywir.

Er mwyn blaenoriaethu diagnosis a thriniaeth – bydd mynediad gwell ac amserol at driniaethau a gweithdrefnau diagnostig sy'n caniatáu blaenoriaethu'r rhai yr amheuir bod ganddynt ganser neu gyflyrau brys eraill, a chlinigwyr sy'n gweithio gyda chi i sicrhau mai eich opsiynau triniaeth yw'r gorau i chi.

Trawsnewid y ffordd rydym yn darparu gofal dewisol - Bydd mwy o ofal a chymorth gan ystod ehangach o wasanaethau a gweithwyr proffesiynol lleol yn cael eu cynnig i'ch helpu i aros yn iach ac i aros gartref. Byddwn yn ceisio sefydlu cyfleusterau llawfeddygol pwrpasol a mesurau i wahanu gofal dewisol oddi wrth ofal brys ac argyfwng.

Darparu gwell gwybodaeth a chymorth i gleifion – yn enwedig i'r rhai sy'n aros am driniaeth, gan gynnwys mwy o fynediad at wybodaeth wedi'i phersonoleiddio. Bydd hyn yn cynnwys cymorth hygyrch wedi'i dargedu i baratoi pobl ar gyfer llawdriniaeth tra byddant yn aros ac, i'r rhai sy'n aros yn hir, mynediad at borth gwybodaeth cenedlaethol i gleifion a gwasanaethau cymorth i helpu pobl i baratoi ar gyfer eu triniaeth.

Mae'r cynllun yn nodi'r canlyniadau canlynol fel egwyddorion arweiniol ar gyfer cyflawni ein hadferiad a'n trawsnewidiad:

- Mynediad teg ac amserol at wasanaeth o ansawdd.
- Gwasanaeth gofal a gynlluniwyd wedi'u moderneiddio.
- Llwybrau clinigol a ysgogir gan ansawdd.
- Gweithlu cynaliadwy.

Bydd y cynllun yn darparu gwasanaeth gofal a gynlluniwyd sy'n gynaliadwy ac sy'n gallu diwallu anghenion ein cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol. Rydym wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'n dull gweithredu yn ystod pandemig COVID-19 i ymgorffori ffyrdd newydd o weithio sy'n cefnogi model gofal a gynlluniwyd wedi'i foderneiddio.

Atal

Bydd atal a rôl yr unigolyn yn hollbwysig yng nghynllun y odel newydd. Mae'r cynllun yn ceisio creu diwylliant o ysgogi a grymuso cleifion. Wrth i bobl aros, bydd gwybodaeth yn cael ei darparu iddynt i'w helpu i reoli eu cyflwr a pharatoi ar gyfer eu triniaeth drwy fesurau atal a hunanreoli.

Byddwn yn rhoi dull mwy penodol ar waith wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, er enghraifft yn ein rhaglenni sgrinio, imiwneiddio a brechu. Y ddau brif beth sy'n achosi salwch a marwolaethau diangen, ac sy'n sbarduno anghydraddoldeb iechyd, yw smygu a gordewdra. Er mwyn mynd i'r afael â'r elfennau hyn ac anghydraddoldebau iechyd eraill, bydd cyrff iechyd yng Nghymru sy'n gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw, gan gynnwys annog pobl i gyrraedd a chynnal pwysau iach, bod yn fwy egniol yn gorfforol a rhoi'r gorau i smygu. Byddwn yn datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol fel y gellir cynnwys mynediad at wasanaethau atal a gweithgareddau llesiant yn ein llwybrau.

Bydd cyfathrebu, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a chymorth rhagweithiol trwy glystyrau yn cael eu targedu at ardaloedd ac unigolion sy'n dioddef yr anghydraddoldebau iechyd mwyaf. Trwy gyflawni'r mesurau hyn, byddwn yn lleihau nifer y bobl a fydd angen ymyriadau gofal a gynlluniwyd yn y dyfodol

Grymuso

Mae'r cynllun yn nodi mandad clir i alluogi mynediad cynnar at gyngor ac arweiniad o ansawdd uchel i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i unigolion dros eu gofal, gan gynnwys cymorth wrth aros am driniaeth. Bydd dulliau fel rhith-ysgolion ar y cyd â rhagsefydlu yn cyfrannu at sicrhau cyhoedd sydd wedi'u grymuso, eu hysbysu a'u cynnwys. Bydd anghenion a chyfrifoldebau unigolion drwy lwybrau amgen fel hunanreoli, Sylw yn ôl Symptomau (SOS) ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf (PIFU) yn atgyfnerthu'r cyfrifoldeb ar y cyd rhwng y clinigydd a'r unigolyn. Bydd llwybrau amgen yn rhoi cyfleoedd i sefydlu patrwm ar gyfer iechyd yn gynnar mewn bywyd, gan ddarparu strategaethau ar gyfer lliniaru salwch a'i reoli yn ddiweddarach mewn bywyd. Bydd gweithio gyda gofal sylfaenol a'i helpu i gefnogi pobl yn gynharach yn rhan annatod o'r model a'r mesur newydd.

Integreiddio

Mae'r cynllun yn dangos dull integredig o gyflawni sy'n cydnabod sut mae'r llwybr gofal arfaethedig yn effeithio ar lawer o wahanol feysydd ym maes iechyd a phartneriaid ehangach megis gofal cymdeithasol. Mae'n cydnabod drwy ei feysydd blaenoriaeth fod angen cryfhau pob maes ar draws y llwybr.

Cydweithio

Mae'r cynllun yn adeiladu ar berthnasoedd sy'n bodoli eisoes yn ogystal â datblygu rhai newydd, gan gydweithio ar draws ffiniau i wella iechyd a lles poblogaeth Cymru.

Mae'r strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu yn cydnabod yr ystod o bartneriaid a sefydliadau a chyfraniad rhanddeiliaid at ddatblygu a chyflawni'r Cynllun i sicrhau gwasanaethau gofal a gynlluniwyd sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy.

Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru wedi'i chynhyrchu'n gymharol gyflym. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol oherwydd yr angen dybryd i weithredu ar unwaith; fodd bynnag, mae'r cynllun wedi'i ddatblygu gyda'r byrddau clinigol, rhwydweithiau, grwpiau a thrwy

drafodaethau gyda'r byrddau iechyd. **Roedd hyn yn help i lunio'r ddogfen ac i ddylanwadu arni wrth iddi ddatblygu.** Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys clinigwyr allweddol a chyrrff proffesiynol, wedi cael gwybod am ei datblygiad er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson a chydweithredol.

Ceisiwyd safbwyntiau ehangach rhanddeiliaid hefyd i sicrhau cydweithio, ymgynghori a chydgyngyrchu gyda'n partneriaid:

- **Llywodraeth Cymru.**
- **Uwch-staff clinigol, gweithredol, strategol a gweithredol y GIG (gofal sylfaenol ac eilaidd).**
- **Cyrrff a byrddau clinigol cenedlaethol**
- **Cynghorau Iechyd Cymuned;**
- **Y Sector Gwirfoddol.**

Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn gofyn am gydweithio sylweddol rhwng darparwyr gofal iechyd. Bydd angen datblygu canolfannau rhanbarthol newydd sy'n gweithio ar draws ffiniau achosion iechyd yn ogystal ag edrych ar ddulliau arloesol o drin cleifion sy'n aros yn hir ar lefel leol, genedlaethol neu ranbarthol.

Effaith

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r pandemig wedi amlygu a dwysáu iechyd gwael ac anghydraddoldebau iechyd ymhlith y boblogaeth. Trwy leihau anghydraddoldebau iechyd, bydd modd i fwy o bobl fyw bywydau hirach, iachach a mwy cynhyrchiol. Trwy wella iechyd corfforol a meddyliol yn gyffredinol, mae'n bosibl y bydd yr angen am ymyriadau clinigol drud yn lleihau, gan leihau'r pwysau ar y GIG yn y tymor hir. Hefyd, mae'r modd y byddwn yn gwario arian ar ofal a gynlluniwyd yn ystyriaeth bwysig, gan gadw'r economi sylfaenol a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol mewn cof. Ein blaenoriaeth yw gwneud y gorau o'r modd y caiff cyllid y GIG a chyllid adfer ei wario yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd adolygu a thrin y rhai sydd â'r angen clinigol mwyaf yn gyntaf. Mae hefyd yn cydnabod anghenion cymdeithasol ehangach, gan gynnwys y bobl hynny sy'n aros am driniaeth ac sy'n parhau i brofi poen a symptomau, tra bod angen cyngor a chymorth parhaus arnynt. Bydd hyn yn parhau i fod yn her i unigolion, gan roi straen ychwanegol ar wasanaethau gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol o bosibl. I lawer, bydd eu salwch neu eu cyflwr yn effeithio ar eu ffordd o fyw mewn ffordd sy'n peri risg o anghydraddoldebau cynyddol, er enghraifft ynysu, anallu i weithio neu ddarparu gofal, mwy o risg o faglu a chwympto. Mae'r cynllun yn ystyried yr hyn sy'n bwysig i bobl ac yn ystyried canlyniadau ar draws y system gyfan.

Mae'r cynllun yn cynnwys targedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fonitro perfformiad a'r effaith y bydd y cynllun hwn yn ei chael ar ddarparu gofal a gynlluniwyd. Yn unol â Fframwaith Perfformiad y GIG, bydd hyn yn cynnwys amseroedd aros ar gyfer diagnosteg, triniaeth a gwaith dilynol a chyfradd gweithredu'r ffyrdd newydd o weithio.

Costau ac arbedion

Ym mis Hydref 2021, cafodd sefydliadau'r GIG ddyraniad rheolaidd o £170m i ategu cynlluniau adfer gofal a gynlluniwyd – sef cynlluniau y bwriadwyd iddynt gael eu datblygu ochr yn ochr â Chynlluniau Tymor Canolig Integredig. Yn sgil y buddsoddiad hwn, gellir esgor ar y canlynol:

- Gweithredu argymhellion y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol.
- Gwasanaethau cataract rhanbarthol yn unol â chyngor y rhaglen Gofal a Gynlluniwyd.
- Cynlluniau rhanbarthol ar gyfer agweddau ar wasanaethau orthopedig, ar sail gwaith y strategaeth glinigol orthopedig.
- Gwasanaethau diagnostig a delweddu gwell, ar sail cyngor a gomisiynwyd gan y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol.
- Gweithredu'r Cynllun Gofal Critigol a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith Gofal Critigol.
- Cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau canser a gwasanaethau strôc.

Buddsoddwyd £20m y flwyddyn i helpu i weithredu dull seiliedig ar werth ar gyfer adfer dros y tymor canolig, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau sy'n bwysig i gleifion. Bydd hyn yn helpu'r GIG i adfer, gan ganolbwyntio ar ymyriadau uchel eu gwerth a fydd yn sicrhau canlyniadau gwell i gleifion a gwasanaethau cymorth cynaliadwy, ynghyd â lleihau amseroedd aros ar gyfer triniaethau dros y tymor canolig.

Er mwyn helpu i drawsnewid gofal a gynlluniwyd mewn modd cynaliadwy, dyrennir buddsoddiad o £15m i ategu'r pum nod ar gyfer trawsnewid gofal a gynlluniwyd yn unol â'r camau gweithredu yn y cynllun hwn.

Bydd y cynllun hefyd yn ceisio cymorth o gronfeydd eraill fel rhan o'u cynlluniau cyflawni, megis gofal sylfaenol, iechyd meddwl a'r gweithlu.

Mecanwaith

Ni chynigir deddfwriaeth fel rhan o'r gwaith hwn, ac nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Adfer yn erbyn metrigau a nodwyd.

ADRAN 8. CASGLIAD

(Nodwch y bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu yn gyflym er mwyn sicrhau eglurder i'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ynghylch y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau sydd eu hangen er mwyn ymateb i'r rhestrau aros sy'n tyfu a'r atgyfeiriadau cynyddol. Wrth inni barhau i fod mewn amgylchedd digynsail, rydym wedi mabwysiadu dull cynllunio hyblyg a chadarn er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn y sefyllfa orau i gyflawni gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau lleol.

Mae'r asesiad effaith hwn yn nodi bod cyfleoedd wedi'u cymryd er mwyn sicrhau tegwch a chydreddoldeb ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y dull gweithredu. Fodd bynnag, mae'r asesiad effaith hefyd yn cydnabod bod y cynllun yn ehangu ar bolisiau a modelau sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â chyflwyno dulliau newydd.

Mae pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol, pobl hŷn, plant a phobl ifanc a'r rheini sydd ag anawsterau iechyd meddwl i gyd wedi wynebu effeithiau, nid yn unig yn sgil COVID-19, ond hefyd yn sgil y cyfyngiadau a osodwyd er mwyn ein diogelu. Mae'n bwysig inni roi cynlluniau ar waith sy'n caniatáu cynnydd mewn capasiti er mwyn ymateb i'r anghenion hyn.

Datblygwyd y cynllun wedi trafodaethau â chydweithwyr ar draws yr adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, arweinwyr proffesiynol ac uwch gydweithwyr o fewn y gwasanaeth, grwpiau cenedlaethol a byrddau clinigol. Roedd y rhain yn cynnwys Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd, Rhwydweithiau Clinigol, Cyfarwyddwyr Meddygol, Arweinwyr Cynllunio y GIG, Prif Swyddogion Gweithredu a Phrif Weithredwyr. Mae'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector wedi'u cynrychioli ar nifer o'r grwpiau hyn. Ceir rhagor o fanylion yn Adran 1 uchod.

Mae'r cynnig wedi'i rannu ag uwch-swyddogion gweithredol y GIG o fewn gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal eilaidd, yn ogystal â'r Colegau Brenhinol a chyrrff cynrychiadol.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Dylai'r cynllun gael effaith gadarnhaol ar bobl ledled Cymru gan ei fod yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer ailgodi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag effaith sylweddol arosiadau hir, yn ogystal â'r effaith yn sgil pobl nad ydynt wedi cysylltu yn ddigon buan â'r gwasanaethau iechyd i sicrhau'r gorau o ran eu canlyniadau posibl. Mae'r cynllun yn cydnabod y byddai peidio â newid ac ailgodi yn dwysáu'r effeithiau negyddol presennol o ganlyniad i COVID-19. Gallai hyd arosiadau godi fwyfwy a byddai effaith sylweddol ar ganlyniadau i gleifion.

Ni fydd sefydliadau yn dechrau o'r newydd, ond byddant yn adeiladu ar y datblygiadau y maent eisoes wedi'u gwneud yn ystod y 24 mis diwethaf. Mae'r cynllun yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer symud ymlaen gan adeiladu ar enghreifftiau gwych o arloesi dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae angen i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gynllunio i ddiwallu anghenion eu poblogaethau perthnasol. Mae'n rhaid iddynt wneud hyn waeth be fo oedran pobl, eu hil, crefydd, rhyw a'u hunaniaeth rywiol etc. Mae angen i sefydliadau sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar ddiagnosis a thriniaeth yn gyfartal.

Mae COVID-19 wedi effeithio'n andwyol ar rai grwpiau o bobl ac mae'r cynllun yn atgyfnerthu'r angen i sefydliadau leddfdu hyn.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynllun wedi'i seilio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan sicrhau'r sylfeini trosfwaol sydd eu hangen drwy'r pum ffordd o weithio (hirdymor, atal, integreiddio, cynnwys a chydweithio) i gefnogi adferiad y system iechyd a gofal. Mae'r cynllun hefyd wedi'i seilio ar 'Cymru Iachach'. Bydd y dull hwn yn fodd o gefnogi ein gwasanaethau iechyd a'n gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau gofal a thriniaeth briodol i bobl.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol. I nifer o bobl, mae gallu cael gafael ar wybodaeth neu ddisgrifio'u symptomau a siarad â gweithwyr proffesiynol yn eu dewis iaith yn allweddol i sicrhau'r driniaeth a'r gofal cywir. Mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg (sy'n cael eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg). Cyfres o ofynion cyfreithiol yw'r rhain a'u nod yw gwella gwasanaethau dwyieithog. Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau' yn nodi ystod o gamau gweithredu a fydd yn cefnogi'r broses o adfer ein gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi byrddau iechyd i weithredu'r cynllun drwy ddyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer adnoddau, yn ogystal â sicrhau dull wedi'i safoni ac adnoddau ategol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan Fwrdd Adfer a fydd yn adrodd i Fwrdd Arweinyddiaeth y GIG.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd effaith y cynllun yn cael ei monitro drwy ystod o ddulliau sy'n cynnwys proses ymgysylltu barhaus a rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru, sefydliadau'r GIG a phartneriaid allweddol.

Bydd cynnydd yn erbyn y targedau a'r ymrwymïadau cenedlaethol yn cael ei fonitro a'i gyhoeddi yn erbyn y llinellau amser a'r targedau allweddol hyd at a chan gynnwys mis Mawrth 2026.